

Englynion beddau

*Mae ôl y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn drwm ar ein heglwysi plwyf.
Mae'r un peth yn wir am ein mynwentydd, yn ôl Lyn Dafis*



*John Thomas (1838-1905):
Bedd David a Jane Thomas,
Glanrhyd, Llanfair Clydogau,
c.1875 (Llyfrgell Genedlaethol
Cymru)*

Prin yw'r cofebau neu feddau a geir ynddynt sy'n dyddio'n ôl cyn canol yr ail ganrif ar bymtheg. Hyd ddechrau'r bedwaredd ar bymtheg fodd bynnag doedd dim llawer o sylw yn cael ei dalu iddyn nhw ar ôl y claddu. Wedi'r cyfan, onid oedd y meirw mewn gwell lle?

Ond daeth newid ddechrau'r bedwaredd ar bymtheg wrth i feddau a chofebau gael eu gweld fel cyswllt rhwng y teulu byw a'r ymadawedig. Daeth ymweld â'r bedd yn arfer mwy cyffredin ac o ganlyniad roedd tacluso mynwentydd i fod yn addas ar gyfer ymweliadau o'r fath yn flaenoriaeth.

Wrth i alar ddod yn fwy cyhoeddus adlewyrchwyd hynny mewn arysgrifau mwy teimladwy a blodeuog yn talu teyrnged i'r marw yn hytrach na bod yn rhybuddion i'r byw fod yn barod am y 'dydd'. Dyma pryd ddaeth yr arfer o osod penillion, neu'n fwy penodol englynion, ar gerrig beddi yn gyffredin. Mae'n arfer sydd wedi para tan heddiw.

Dros y blynyddoedd aeth llawer o chwilotwyr brwd ati i gasglu'r englynion hyn ynghyd â'u cyhoeddi. Mae eu darllen yn taflu goleuni ar agweddau tuag at alar a chofio. Mewn pedair llinell o gynghanedd mae'n bosib inni gael ein tynnu mewn i fyd arall.

Dyma enghraifft o fynwent Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor.. Dyma'r englyn ar gofeb David Edwards, o'r Darren Office, plwyf Llanbadarn Fawr a fu farw 25 Ebrill 1870 yn 31 oed:

*Dygodd y Darfodedigaeth — Dewi
I dŷ oer marwolaeth;
Ond Duw er gwell o'r gell gaeth,
A'i dwg uwch llygredigaeth.*

Enghraifft arall yw'r englyn ar gofeb Thomas Blackwall ym mynwent Eglwys S. Ioan, Ysbyty Cynfyn a fu farw 4 Awst 1872 yn 67 oed.

*Mae'n ddistaw hunaw fan hon — ŵr astud,
Oedd ddirwestwr cyson;
Un mwynaidd llariaid a llon,
Digroester a da gristion.*

Mae'n englyn teimladwy a chryf ac yn deyrnged hyfryd. Efallai dyna pam ei fod wedi'i ailgylchu ar gofebau eraill yn yr ardal yn ôl ymchwil Dr Euronwy James.

Os oes diddordeb gyda chi mewn dysgu rhagor am englynion beddau yna mae grŵp cyhoeddus difyr iawn ar Facebook, Englyn Bedd. Mae hwnnw'n gysylltiedig hefyd gyda chyfrif Twitter @EnglynBedd.

Darllen pellach

- M. Euronwy James, *Englynion beddau Ceredigion* (Gomer, 1983)
- Sarah Rutherford, *The Victorian cemetery* (Shire Publications, 2008)
- Trevor Yorke, *Gravestones, tombs and memorials* (Britain's Living History). (Countryside Books, 2010)